# Lleoliad Ymchwil ar Waith YGGCC: Senedd Cymru

## Gwybodaeth am Ymchwil y Senedd

Senedd Cymru yw senedd ddatganoledig Cymru. Mae ei Haelodau etholedig yn llunio deddfau, yn gwirio ac yn herio gweithredoedd a gwariant Llywodraeth Cymru, ac yn cynrychioli dinasyddion Cymru.

Ymchwil y Senedd yw gwasanaeth ymchwil mewnol y Senedd. Mae Ymchwil y Senedd yn darparu gwasanaethau ymchwil a dadansoddi diduedd, annibynnol ac arbenigol i helpu'r holl Aelodau o'r Senedd yn eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig ac i sicrhau eu bod yn gallu craffu'n effeithiol ar bolisi a deddfwriaeth.

Mae Ymchwil y Senedd yn cynnwys:

- Pedwar tîm ymchwil sy'n rhoi cyngor arbenigol ynghylch meysydd polisi penodol: yr economi, cymunedau a llywodraeth leol; addysg a dysgu gydol oes; yr amgylchedd a thrafnidiaeth; ac iechyd a pholisi cymdeithasol;
- Uned Craffu Ariannol sy'n rhoi gwybodaeth ariannol ac ystadegol;
- Tîm sy'n rhoi cyngor ynghylch y Senedd, y cyfansoddiad, deddfwriaeth y DU a'r UE, etholiadau, refferenda a'r broses o ymadael â'r UE;
- Tîm Llyfrgell a Digidol sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau cyfeirio a gwybodaeth, ynghyd â delweddu data ac arbenigedd AI, ac
- Uned Cyfnewid Gwybodaeth, sy'n gweithio i gysylltu'r Senedd â'r gymuned ymchwil yng Nghymru a thu hwnt i helpu i wella ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael i'r senedd.

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni a'n gwaith ar ein gwefan.

## Cyfleoedd Interniaeth Polisi gydag Ymchwil y Senedd

Bydd interniaid gydag Ymchwil y Senedd yn cael profiad uniongyrchol o amgylchedd gwleidyddol cyflym ei natur. Gan weithio'n uniongyrchol gydag Aelodau o'r Senedd a'u staff, byddwch yn dysgu am y broses o ddatblygu polisïau, deddfu a chraffu a, thrwy hynny, yn dod i ddeall sensitifrwydd gwleidyddol.

Byddwch yn ymuno ag un o'n timau, gan ddibynnu ar eich gwybodaeth bwnc a'ch meysydd diddordeb. Byddwch yn darparu gwybodaeth am faterion polisi sydd o ddiddordeb i'r Aelodau o'r Senedd ac yn cyfrannu at bob agwedd ar waith amrywiol y tîm y byddwch yn ymuno ag ef. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu o leiaf un papur ymchwil ac ysgrifennu erthyglau ymchwil ar faterion cyfoes. Byddwch yn rhan o fwrlwm gwaith y Senedd o ddydd i ddydd, drwy gyfrannu at bapurau briffio ar gyfer pwyllgorau'r Senedd a helpu i ateb ymholiadau ymchwil gan Aelodau o'r

Senedd. Byddwch yn gweld sut mae ymchwil academaidd yn cael ei defnyddio mewn busnes seneddol ac yn cael cyfle i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, academyddion, cynrychiolwyr diwydiant ac eraill.

Byddwch yn cymryd rhan mewn rhaglen gynefino i ddysgu am waith y Senedd, gan gynnwys mynd i sesiynau Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Byddwch yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill, gan gynnwys cyfreithwyr, timau clercio, a gwasanaethau cyfieithu, cyfathrebu ac ymgysylltu yn y Senedd.

I lawer o interniaid, mae eu profiad gydag Ymchwil y Senedd wedi arwain at yrfa newydd ym maes polisi ac ymchwil seneddol.

Bydd cynllun Lleoliad Ymchwil ar Waith yr Ysgol yn rhedeg ochr yn ochr â'n cynllun lleoliadau i fyfyrwyr PhD gydag UKRI, a bydd yn dilyn yr un strwythur. Am ragor o wybodaeth am ein lleoliadau i fyfyrwyr PhD, darllenwch ein herthygl ymchwil fer.

## Tystebau gan interniaid blaenorol

Mae bron i 80 o fyfyrwyr PhD wedi ymgymryd ag interniaethau gydag Ymchwil y Senedd ers 2006. Ymhlith yr 14 intern mwyaf diweddar, dywedodd 100% ohonynt fod eu profiad wedi rhagori neu ragori'n sylweddol ar eu disgwyliadau.

Dywedodd Thomas Mitcham, a fu'n intern yn 2020: "Ni allwn fod wedi gofyn am brofiad gwell yn Ymchwil y Senedd. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n rhan o'r tîm o'r diwrnod cyntaf un a chefais hyfforddiant a chefnogaeth wych gan fy nghydweithwyr. Cefais gyfle i fod yn bresennol mewn sesiynau craffu ar waith weinidogion, ysgrifennu sesiynau papurau ymchwil ac erthyglau am ddigwyddiadau a oedd yn datblygu'n gyflym ac ymateb yn uniongyrchol i ymholiadau gan wleidyddion. Rhoddodd yr interniaeth ddealltwriaeth i mi o'r modd y mae cyrff deddfwriaethol yn gweithio o ddydd i ddydd, ac mae wedi caniatáu i mi fod yn rhan o'r broses honno o'r dechrau. Roedd y gwersi Cymraeg hefyd yn uchafbwynt! Byddwn yn eich cynghori'n gryf wneud cais am interniaeth polisi yn Ymchwil y Senedd."

Mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr wedi ysgrifennu erthyglau am eu profiad: Charlotte Lenton, Hayley Moulding, Eleanor Warren-Thomas, a Piotr Węgorowski.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y mae ein hinterniaid wedi'i gynhyrchu: Ynni Niwclear yng Nghymru; Pwy sy'n siarad dros Gymru? Sut allai etholiad Senedd 2026 fod yn fwy cynrychioliadol?; Twbercwlosis Buchol; Batris: Diwydiant hanfodol ar gyfer cyflawni sero net.

## Sut y byddwn yn recriwtio?

Bydd Ymchwil y Senedd yn arwain y broses ymgeisio a chyfweld ar gyfer y lleoliadau. **Mae ceisiadau bellach ar agor tan 29 Mai 2026**. Yna byddwn yn llunio rhestr fer o geisiadau, gan gynnal cyfweliadau ym mis Mehefin/Gorffennaf.

Mae'r lleoliadau'n dechrau ar dri dyddiad yn ystod y flwyddyn – ym mis Medi, mis Ionawr, a mis Ebrill. Cewch gyfle i nodi'r dyddiad dechrau fyddai orau gennych ar y ffurflen gais. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer eich dewis, ond ni allwn warantu hynny.

Cynigir lleoliadau gyda holl dimau Ymchwil y Senedd, yn amodol ar gapasiti'r timau i dderbyn a chefnogi myfyrwyr. Yn anffodus, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau i ymuno â thimau penodol.

Oherwydd ein hymrwymiadau presennol gydag UKRI o ran lleoliadau i fyfyrwyr PhD, gall y cyfleoedd am leoliadau fydd yn dechrau ym mis Medi 2026 fod yn gyfyngedig. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer lleoliadau fydd yn dechrau ym mis Medi 2026, fe roddir sylw i'n hymrwymiadau presennol gydag UKRI.

**I wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais ar-lein hon.**

## Cyfyngiadau diogelwch

Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi byw yn DU am o leiaf dair blynedd. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus gael eu fetio gan y gwasanaeth diogelwch. Rhaid cael cliriad diogelwch hyd at lefel Gwiriad Gwrthderfysgaeth (CTC) a bydd gofyn i'r ymgeisydd gwblhau holiadur diogelwch ar-lein gyda United Kingdom Security Vetting (UKSV). Mae'r lleoliadau'n amodol ar gwblhau'r lefel hon o fetio diogelwch yn llwyddiannus.

## Trefniadau gwaith a lleoliad

Bydd myfyrwyr a gaiff eu lleoli gyda ni yn gweithio yn swyddfeydd Comisiwn y Senedd drws nesaf i adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd. Mae gweithio hybrid ac o bell hefyd yn bosibl.

Mae'r Senedd wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Am ragor o wybodaeth am wneud cais, y broses, neu'r lleoliad cysylltwch â Chloe Corbyn, Arweinydd Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd (ac arweinydd y cynllun lleoliadau) (Chloe.Corbyn@senedd.cymru)